

2022 Rhif (Cy.)

2022 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A465
(Cylchfan y Rhigos, Rhondda
Cynon Taf i Gyfnewidfa
Aberdulais, Castell-nedd Port
Talbot) (Gwahardd Cerbydau,
Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro)
2022

The A465 Trunk Road (Rhigos
Roundabout, Rhondda Cynon Taff
to Aberdulais Interchange, Neath
Port Talbot) (Temporary
Prohibition of Vehicles, Cyclists &
Pedestrians) Order 2022

Gwnaed 22 Ebrill 2022
Yn dod i rym 27 Ebrill 2022

Made 22 April 2022
Coming into force 27 April 2022

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A465, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A465 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan y Rhigos, Rhondda Cynon Taf i Gyfnewidfa Aberdulais, Castell-nedd Port Talbot) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2022 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 27 Ebrill 2022.

Title and commencement

1. The title of this Order is the A465 Trunk Road (Rhigos Roundabout, Rhondda Cynon Taff to Aberdulais Interchange, Neath Port Talbot) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists & Pedestrians) Order 2022 and this Order comes into force on 27 April 2022.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

Interpretation

2. In this Order—

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â’r gwaith sy’n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 20:00 o’r gloch ar 27 Ebrill 2022 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A465 Castell-nedd i Y Fenni.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

Cymhwys

6. Nid yw’r gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

22 Ebrill 2022

Nicci Hunter
Arweinydd Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A465 Neath to Abergavenny trunk road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 20:00 hours on 27 April 2022 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are removed.

Prohibitions

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

4. No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

5. No pedestrian may, during the works period, proceed on the lengths of the trunk road specified in the Schedule.

Application

6. The prohibitions in articles 3, 4 and 5 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

7. The maximum duration for this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated the

22 April 2022

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

YR ATODLEN

1. Y darn o gerbyttfordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr orllewinol Cylchfan y Rhigos hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyfnewidfa Glyn-nedd.
2. Y darn o gerbyttfordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain yng Nghyfnwidfa Glyn-nedd hyd at ei chyffordd ag ochr orllewinol Cylchfan y Rhigos.
3. Y darnau cyfan o'r ffyrdd ymuno tua'r gorllewin a thua'r dwyrain yng Nghyfnwidfa Glyn-nedd.
4. Y darn o gerbyttfordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin yng Nghyfnwidfa Glyn-nedd hyd at ei chyffordd ag ochr ddwyreiniol Cylchfan Cwm-gwrach.
5. Y darn o gerbyttfordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ddwyreiniol Cylchfan Cwm-gwrach hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain yng Nghyfnwidfa Glyn-nedd.
6. Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr orllewinol Cylchfan Cwm-gwrach hyd at ei chyffordd ag ochr ddwyreiniol Cylchfan Resolfen.
7. Y darn o gerbyttfordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr orllewinol Cylchfan Resolfen hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin yng Nghyfnwidfa Aberdulais.
8. Y darn o gerbyttfordd tua'r dwyrain y gefnffordd (gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r dwyrain yng Nghyfnwidfa Aberdulais) sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gogledd yng Nghyfnwidfa Aberdulais hyd at ei chyffordd ag ochr orllewinol Cylchfan Resolfen.

SCHEDULE

1. The length of the westbound carriageway of the trunk road that extends from its junction with the western side of Rhigos Roundabout to the nosing of the westbound entry slip road at Glynneath Interchange.
2. The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from the nosing of the eastbound exit slip road at Glynneath Interchange to its junction with the western side of Rhigos Roundabout.
3. The entire lengths of the westbound and eastbound entry slip roads at Glynneath Interchange.
4. The length of the westbound carriageway of the trunk road that extends from the nosing of the western exit slip road at Glynneath Interchange to its junction with the eastern side of Cwmgwrach Roundabout.
5. The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from its junction with the eastern side of Cwmgwrach Roundabout to the nosing of the eastbound entry slip road at Glynneath Interchange.
6. The length of the trunk road that extends from its junction with the western side of Cwmgwrach Roundabout to its junction with the eastern side of Resolven Roundabout.
7. The length of the westbound carriageway of the trunk road that extends from its junction with the western side of Resolven Roundabout to the nosing of the westbound entry slip road at Aberdulais Interchange.
8. The length of the eastbound carriageway of the trunk road (including the eastbound entry slip road at Aberdulais Interchange) that extends from the nosing of the northbound exit slip road at Aberdulais Interchange to its junction with the western side of Resolven Roundabout.